

Wleidyddol Gymreig

Cylchlythyr Yr Archif Wleidyddol Gymreig | Yr Hydref 2006 | Rhif 37 | ISSN 1365-9170

Dyddiadur Llewelyn Williams

Gwynfor: Rhag Pob Brad

Croeso i bawb

Gareth Vaughan Jones (1905 – 1935)

WPA Annual Lecture

Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Lloyd George a'r Fonesig Margaret

Cymdeithas Ryddfrydol Ceredigion

Cerfluniau Lloyd George

Ffederasiwn Glowyr De Cymru


Yr Arglwydd Howe o Aberafan

Ymgyrch Gefnogi Nicaragua Cymru

Papurau W. Llewelyn Williams

Anerchiadau etholiadol 1910

Is-etholiad Caerfyrddin, 1966



Llewelyn Williams

Dyddiadur Llewelyn Williams

Ymhlith papurau W. Llewelyn Williams AS (1867 – 1922) a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Llyfrgell gan Ei Anrhydedd y Barnwr T. Michael Evans, Abertawe, aelod o'i deulu, ceir dyddiadur manwl a gadwodd ar adegau rhwng Ionawr 1906 a Thachwedd 1915. Etholwyd Llewelyn Williams yn AS Rhyddfrydol dros etholaeth Bwrdeistrefi Caerfyrddin ym muddugoliaeth ysgubol y Rhyddfrydwyr, Ionawr 1906, a daliodd i gynrychioli'r etholaeth yn y Senedd hyd at ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Yntau hefyd oedd yr ymgeisydd Rhyddfrydol Annibynnol (un o gefnogwyr H. H. Asquith) yn isetholiad enwog Sir Aberteifi, Chwefror 1921.

Bu Llewelyn Williams yn ysgolfeistr, yn fargyfreithiwr ac yn newyddiadurwr o fri, a daeth hefyd yn un o hoelion wyth mudiad Cymru Fydd ar ôl 1886. Bu'n gyfaill agos i David Lloyd George

hyd at 1916 pan fu anghydwelld chwyrn rhyngddynt dros yr angen dybryd i gyflwyno mesur o orfodaeth filwrol. Roeddent yn elynion byth ar ôl hynny.

Yn dilyn ei etholiad i Dŷ'r Cyffredin, ysgrifennodd Llewelyn Williams yn ei ddyddiadur, *'Teimlaf yn hollol annheilwng o'r cyfan. Teimlaf fy mod yn medru gwneud cyn lleied, a'r bobl druan yn disgwyl cymaint. Mae'r profiad, fodd bynnag, wedi gyrru'r holl sinigiaeth allan o'm natur, a'm gwneud yn benderfynol i wasanaethu Cymru a'i phobl annwyl hyd at eithaf fy ngallu, yn deyrngar a ffyddlon iddynt... 'Rwy'n falch i gael y cyfle i gymeryd rhan yn y gwaith da'.* (Dyddiadur, 17 Ionawr 1906).

Ar dudalennau olaf y dyddiadur, mae'r awdur yn myfyrio'n drist iawn ar ddiwedd y cyfeillgarwch clos a fu rhyngddo a Lloyd George, *'Teimlais y peth i'r byw. Ni chysgais am nosweithiau ar eu hyd ond yn ysbeidiol ac yn anghysurus... Ni feddyliais erioed y byddai Lloyd George mor barod i daflu i'r gwynt cyfeillgarwch hir a ffyddlon'.* (Dyddiadur, 26 Tachwedd 1915).

Y gobaith yw medru cyhoeddi testun y dyddiadur, ynghyd â rhagymadrodd a nodiadau esboniadol, mewn rhannau o fewn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn ystod 2007 a 2008.

Yr Archif Wleidyddol Gymreig Darlith Flynyddol 2006

'Y Blaid Geidwadol yng Nghymru, 1888 – 1998'
Arglwydd Crickhowell

Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Gwener, 3 Tachwedd, 5.30yh

Gwynfor: Rhag Pob Brad

Yn ystod hydref 2005 cyhoeddwyd un o'r bywgraffiadau gwleidyddol mwyaf sylweddol ac ysbennydd erioed i ymddangos yng Nghymru – *Gwynfor: Rhag Pob Brad* gan Rhys Evans, golygydd *Dragon's Eye* ac aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n cynnwys 544 o dudalennau gafaelgar, gan Wasg y Lolfa, Talybont. Cynhaliwyd y prif lansiad yng Nghaerdydd ar nos Fercher, 9 Tachwedd 2005 mewn seremoni a noddwyd gan Yr Arglwydd Elis-Thomas, llefarydd y Cynulliad Cenedlaethol.

Cynhaliwyd ail lansiad yn Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ar nos Iau, 17 Tachwedd 2006, pan, yn unol â'r disgwyl, ymgasglodd cynulleidfa niferus ar gyfer yr achlysur. Dr Richard Jones, Cyfarwyddwr Sefydliad Wleidyddiaeth Gymreig Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac aelod blaenllaw o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, oedd cadeirydd y noson – gyda'i garisma arferol. Anerchwyd gan Mr Garmon Gruffudd, rheolwr-gyfarwyddwr Gwasg y Lolfa, Mr Rhys Evans, a'r Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dr Jones fu'n gyfrifol am lunio'r catalog hollol ddwyieithog o ohebiaeth a phapurau sylweddol y



Rhys Evans, awdur *Gwynfor: Rhag Pob Brad* (canol) yng nghwmni Andrew Green, Llyfrgellydd (chwith) a Gwyn Jenkins, Pennaeth Casgliadau, yn ystod noson lansiad o'r gyfrol.

Dr Gwynfor Evans sydd bellach ar gael i'r cyhoedd.

Esboniodd Dr Jones ym mha fodd y trefnwyd papurau Dr Evans tra'n eu didoli a'u rhestru, a soniodd am rai o'r eitemau mwyaf difyr yn eu plith, gan gynnwys papurau'n ymwneud â Thryweryn, isetholiad nodedig Sir Gaerfyrddin 1966, a'r ymgyrch i glustnodi S4C ar gyfer rhaglenni Cymraeg eu hiaith. Rhoddodd hefyd i'r gynulleidfa arddangosiad 'ar-lein'

o sut i ddarganfod ac archebu ffeiliau unigol o ddogfennau allan o'r casgliad.

Braf yw medru adrodd bod fersiwn Saesneg o *Gwynfor: Rhag Pob Brad* ar y gweill eisoes, cyfrol a ddylai weld golau dydd cyn diwedd 2006.

Darlith Yr Archif Wleidyddol Gymreig Yr Arglwydd Crickhowell

Nos Wener, 3 Tachwedd am 5.30pm
Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Croeso i bawb

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charafanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; poster i ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â:

Dr. J. Graham Jones
Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion
Cymru SY23 3BU
Ffôn: 01970 632866
Ffacs: 01970 632883
jgj@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

Gareth Vaughan Jones (1905 – 1935)

Yn ystod haf 2005 cyhoeddodd Dr Siriol Colley, Nottingham gofiant llawn iawn i'w hewythr Gareth Vaughan Jones (1905 – 35), yr ieithydd, newyddiadurwr ac awdur nodedig a laddwyd yn drist iawn gan 'ladron' ym Mongolia Mewnol ar 12 Awst 1935. Teitl y gyfrol drawiadol a darllenadwy yw *More Than a Grain of Truth*. Mae'r llyfr yn dyst i ddarllen ac ymchwil eang yr awdur, a cheir ynddo lu o gyfeiriadau a nifer o luniau deniadol o albwm teuluol teulu Jones. Mae'n gymar gwych i gyfrol flaenorol Dr Colley sef *Gareth Jones: a Manchukuo Incident* (2001), sydd yn canolbwyntio ar daith olaf Gareth o amgylch y byd ym 1935 ac amgylchiadau trist ei farwolaeth annhymig. Gellir darganfod gwybodaeth ychwanegol ar y wefan www.garethjones.org.uk

Mae casgliad bychan o bapurau Gareth Jones yng ngofal y Llyfrgell Genedlaethol.

Ar 2 Mai 2006 cynhaliwyd gwasanaeth coffa hollol unigryw i Gareth Jones yng nghapel Prifysgol Cymru, Aberystwyth ar gampws Penglais. Bu Llywydd y Brifysgol, yr Arglwydd Elystan-Morgan a'r Is-Ganghellor yr Athro Noel Lloyd, yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Yn dilyn hyn dadorchuddiwyd plac coffa i Jones mewn tair iaith (Saesneg, Cymraeg ac iaith yr Iwcran) yng nghwadrangl yr Hen Goleg yn Aberystwyth lle bu yntau'n fyfyrwr israddedig yn astudio Ffrangeg rhwng 1922 a 1926. Dyma'r plac cyntaf i'w dadorchuddio yn y cwad ers degawdau.

Darlith Flynyddol Yr AWG

Cynhaliwyd pedwaredd ddarlith flynyddol ar bymtheg yr Archif Wleidyddol Gymreig yn Y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol ar nos Wener, 4 Tachwedd 2005. Y darlithydd oedd Mr Cynog Dafis, cyn AS Plaid Cymru dros Geredigion a Gogledd Penfro (Ceredigion ar ôl hynny), 1992 – 2000, ac aelod y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru, 1999 – 2003. Mewn darlith sylweddol iawn, llawn ffeithiau, yn yr iaith Gymraeg, testun Mr Dafis oedd 'Plaid Cymru a'r Gwyrddiaid: tân siafins neu wers i'r dyfodol?'

Ar yr un diwrnod, ychydig cyn y ddarlith flynyddol, lansiodd *Mab y Pregethwr* yn y Llyfrgell Genedlaethol, hunangofiant Cynog Dafis a luniwyd yn raenus a manwl ganddo ac a gyhoeddwyd gan Wasg y Lolfa, Talybont. Amlygwyd llawer iawn o ddiddordeb a chefnogaeth i'r achlysur.

Yn ei ddarlith cyflwynodd Cynog Dafis grynoded manwl iawn o'r digwyddiadau, y cyfarfodydd a'r trafodaethau a arweiniodd at gytundeb hanesyddol 1992 rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Werdd, a'i lwyddiant yng Ngheredigion a Gogledd Penfro fel ymgeisydd ar-y-cyd yn cynrychioli'r ddwy blaid. Bu hefyd yn dadansoddi ffrwyth y cyd-ymgyrch yn San Steffan a'r amgylchiadau anffodus a arweiniodd at ddiwedd y cytundeb yn haf 1995. Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn ystod y ddarlith oedd y llwyddiant a gafwyd, ar y cyd â'r Blaid Werdd, yn llywio drwy'r Senedd Deddf Gwarchod Ynni yn y Cartref a Deddf Lleihau Trafnidiaeth ar y Ffyrdd. Rhoddwyd sylw hefyd i sefydlu'r grŵp seneddol GLOBE UK sydd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith seneddol ar ddatblygu cynaliadwy ym Mhrydain a ledled y byd. Amlinellodd Cynog Dafis y ffordd y rhoddwyd cyfrifoldeb arbennig i'r Cynulliad Cenedlaethol



Cymreig, a sefydlwyd ym 1999, dros gynnal datblygiad cynaliadwy yng Nghymru.

Bu'r darlithydd yn pwysu a mesur dylanwad tymor-hir agenda'r Gwyrddiaid ar bolisiau Plaid Cymru ymhell ar ôl i'r cytundeb ddod i ben, ac ar gwrs y dadl wleidyddol yn San Steffan. Dyfynnodd yn faith o nifer o ddogfennau polisi a chyhoeddiadau a adlewyrchai'r pwyslais newydd, a bu'n myfyrio ar y cynnydd a wnaed ers y 1990au. Thema rhan olaf y ddarlith oedd ystyriaeth o wersi'r ymgais i fabwysiadu agenda gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

Gellir darllen testun llawn y ddarlith yn y Gymraeg gwreiddiol a'r Saesneg ar dudalennau we LIGC yn yr adran ar yr Archif Wleidyddol Gymreig, a chyhoeddir y testun Cymraeg yn fuan iawn yn rhifyn nesaf *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*.

Lloyd George a'r Fonesig Margaret

Ar ddydd Sadwrn, 28 Ionawr 2006, cynhaliwyd diwrnod agored hynod lwyddiannus yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Un o'r digwyddiadau niferus oedd darlith a roddwyd i Gyfeillion y Llyfrgell Genedlaethol gan Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig. Thema ei ddarlith, a ddenodd gynulleidfa sylweddol, oedd 'Lloyd George a'r Fonesig Margaret, 1921 – 41'. Dr Nesta Lloyd, cadeirydd Cyfeillion y Llyfrgell Genedlaethol, oedd yn y gadair.

Gan ddefnyddio'r cyfresi cyfoethog o ohebiaeth Lloyd George a theipysgrifau dyddiaduron gwreiddiol A. J. Sylvester (Prif Ysgrifennydd Preifat Lloyd George o 1923 hyd at ei farwolaeth ym 1945), y cyfan ym mediant y Llyfrgell Genedlaethol, ynghyd â dyddiaduron manwl Frances Stevenson yn yr Archif Seneddol yn Nhŷ'r Arglwyddi, rhoddodd Dr Jones ail-ystyriaeth ddiddorol i stori ramant drionglog rhyfeddaf yr ugeinfed ganrif.

Ei gasgliad oedd bod Lloyd George wedi ymserchu'n llwyr yn ei wraig a'i feistres fel ei gilydd, a'r ddwy yn ymateb i wahanol agweddau ar ei bersonoliaeth cymhleth ac emosiynol. Roedd y Fonesig Margaret hithau wedi adeiladu bywyd annibynnol yn seiliedig ar ei hoff gartref yng Nghriccieth, sef 'Brynawelon', ei gerddi, ei phlant, a rhychwant eang o ddiddordebau a gweithgareddau yn yr ardal – yn hollol ar wahân i'w bywyd ingol, cythryblus gyda Lloyd George.

Bydd y rhai hynny a fethodd mynychu'r ddarlith yn falch o ddeall y'i cyhoeddir ym mis Hydref yn *Nhrafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* rhif 67 (2006).

Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae Mr Rhys Evans, aelod blaenllaw o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, yn garedig iawn wedi cyflwyno i'r Archif gopiâu o rai ffeiliau rhyfeddol o ddiddorol ym mediant yr Archifau Cenedlaethol yn Kew. Maent yn ymdrin â phynciau megis y cefndir i sefydlu S4C ym 1982, streic y glowyr, 1984 – 85, yr ymgyrchoedd llosgi yn erbyn ail gartrefi a thai haf yng Nghymru, a gweithgareddau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Eu cyfeirnod yw NLW ex 2371. Mae'r Athro Duncan Tanner, Bangor, yntau hefyd yn aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, wedi cyflwyno deunydd yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd a ddaeth i'w feddiant yn sgil ceisiadau o dan Deddf Rhyddid Gwybodaeth.



Derbyniadau Diweddar

Cymdeithas Ryddfrydol Ceredigion

Drwy haelioni'r Athro P. D. G. Thomas, Aberystwyth, derbyniwyd grŵp ychwanegol o gofnodion, 1950 – 92, Cymdeithas Ryddfrydol Ceredigion. Mae'r llyfr cofnodion, 1950 – 67, o ddiddordeb arbennig, a cheir ymhlith y cofnodion ychydig o bapurau'n ymwneud â'r Arglwydd Geraint o Bonterwyd. Cyflwynodd yr Athro Thomas hefyd grŵp bychan o gofnodion y Gymdeithas Ryddfrydol Gymreig yn dyddio o'r 1980au. Ychwanegwyd y cyfan at y casgliadau oedd eisoes yng ngofal y Llyfrgell.

Cerfluniau Lloyd George

Roedd y Llyfrgell yn arbennig o falch o fedru prynu copi pres o benddelw David Lloyd George (1863 – 1945) a wnaed gan y cerflunydd enwog Michael Rizzello ym 1960. Rhoddwyd y gofgolofn wreiddiol ym Mharc Cathays, Caerdydd fel cofeb genedlaethol i Lloyd George. Ar yr un adeg prynwyd model bychan o'r gofeb lawn gan y Llyfrgell.

Ffederasiwn Glowyr De Cymru

Mae Mr M. Thomas, Bryste, wedi cyflwyno i'r Llyfrgell llun prin, mewn cyflwr arbennig o dda, o aelodaeth pwyllgor gwaith Ffederasiwn Glowyr De Cymru ym Mhlas Tal-y-garn, mis Mehefin 1923. Cyflwynodd yn ogystal lun o Mr Noah Rees, un o hoelion wyth y Ffederasiwn, ysgrifennydd cyfrinfa'r Cambrian ac un o arweinwyr terfysgoedd Tonypanyd ym 1910.

Yr Arglwydd Howe o Aberafan

Mae'r Arglwydd Howe yn garedig iawn wedi cyflwyno i'r Archif llungopi o lyfr lloffion o ddeunydd yn ymdrin â'i yrfa wleidyddol gynnar o fewn etholaeth Aberafan yn y 1950au. Casglwyd y deunydd ynghyd yr adeg hynny gan ei dad. Ei gyfeirnod bellach yw NLW Fac 1007. Cyflwynwyd archif sylweddol o bapurau gwleidyddol yr Arglwydd Howe i ofal Llyfrgell y Bodley, Rhydychen.

Ymgyrch Gefnogi Nicaragua Cymru

Cyflwynodd Mr Ben Gregory grŵp ychwanegol o gofnodion Ymgyrch Gefnogi Nicaragua Cymru. Ceir yn eu plith dirprwyaethau, 1990 – 2005, ffeiliau gohebiaeth, 1996 – 2004, cofnodion, 1998 – 2004, a deunydd, 1992 – 2004, yn tarddu o ymgyrchoedd cysylltiedig a grwpiau eraill.

Papurau W. Llewelyn Williams

Mae ei Anrhydedd y Barnwr T. Michael Evans, Abertawe, wedi cyflwyno i ofal y Llyfrgell grŵp bychan o ohebiaeth, deunydd dyddiadur, eitemau printiedig, a thorion papur newydd yn ymwneud â'r gwleidydd W. Llewelyn Williams (1867 – 1922), AS Rhyddfrydol Bwrdeistrefi Caerfyrddin rhwng 1906 a 1918, a chyfaill agos i David Lloyd George hyd at 1916. Gwnaeth y ddau wleidydd anghydweld yn chwyrn dros yr angen i gyflwyno gorfodaeth filwrol ym merw'r Rhyfel Byd Cyntaf. Disgwylir rhagor o bapurau'n fuan.

Mae Mr Neville C. Masterman, Abertawe, yntau hefyd wedi cyflwyno rhai papurau'n ymdrin â Llewelyn Williams, ynghyd â'r nodiadau ymchwil ac adysgrifau o ddogfennau a gasglodd yn ymwneud â Williams. Bwriad gwreiddiol Mr Masterman oedd llunio bywgraffiad llawn o Llewelyn Williams.

Anerchiadau etholiadol 1910

Roedd y Llyfrgell yn falch iawn o fedru prynu'n ddiweddar casgliad sylweddol o anerchiadau a thafleini (mewn cyflwr arbennig o dda) a gylchredwyd gan nifer o ymgeiswyr ym Morgannwg adeg y ddwy ymgyrch etholiadol ym 1910. Ceir yn eu plith ddeunydd etholiadol gan, ymhlith eraill, Keir Hardie, Charles Butt Stanton, J. Hugh Edwards, Edgar Rees Jones, Sidney Robinson a Clement Edwards.

Is-etholiad Caerfyrddin, 1966 | Dr Gwynfor Evans



Is-etholiad Caerfyrddin, 1966

Drwy garedigrwydd Mr Peter Hughes Griffiths, Caerfyrddin, mae'r AWG wedi derbyn llyfr lloffion sylweddol iawn yn cynnwys yn llythrennol cannoedd o lythyrau, telegramau a negeseuon a dderbyniwyd gan Dr Gwynfor Evans yn dilyn ei fuddugoliaeth ysgubol yn isetholiad Caerfyrddin, Gorffennaf 1966. Yn eu plith ceir negeseuon oddi wrth Saunders Lewis, y Parch Lewis Valentine a D. J. Williams. Cyfeirnod y gyfrol bellach yw NLW ex 2383.